



Annwyl Cwsmer

Swyddfa'r Post Ffrith®
Victoria Road West, Prestatyn, LL19 7YF

Penderfyniad Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

Rwyf yn ysgrifennu i gadarnhau y byddwn yn gweithredu ein cynigiad i symud y gangen uchod o Swyddfa'r Post i Willow Stores Ltd, 287 Victoria Road, Prestatyn, LL19 7UT, lle y bydd yn gweithredu fel un o'n canghennau Swyddfa'r Post yn y dull lleol newydd.

Derbynion ni 281 o ymatebion unigol a deiseb oddi wrth gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Mynychodd cynrychiolwyr Swyddfa'r Post hefyd gyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan Chris Ruane AS i drafod y newid arfaethedig yn fwy manwl. Rhoddodd hyn gyfle i ni wrando ar bryderon cwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol ac i egluro'r rhesymau dros y newid. Ar y cyfan roedd yr adborth yn ymwneud ag argaeledd manau parcio yn y lleoliad newydd a gofynnwyd a fyddai digon o le o fewn yr eiddo arfaethedig i gynnwys Swyddfa Bost. Roedd adborth gan eraill yn croesawu'r newid i'r lleoliad newydd a fyddai'n agosach i rai cwsmeriaid ac yn cynnig gwell mynediad ac oriau agor hirach. Bu'r adborth hwn yn help i mi ddeall barn cwsmeriaid ac i ofalu bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried cyn i ni gwblhau ein cynlluniau.

Fel rhan o'r broses ymgynghori mae Swyddfa'r Post Cyf. hefyd yn cyfarfod â'r corff gwarchod statudol annibynnol i ddefnyddwyr, sef ym Mhrydain Fawr Cyngor ar Bopeth a Citizens Advice Scotland, ac yng Ngogledd Iwerddon y Cyngor Defnyddwyr i adolygu'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried. Bu'r adborth hwn yn help i ni ddeall yn well farn cwsmeriaid ac i ofalu bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniad.

Rydym yn ymwybodol iawn y gall pobl fod yn amheus o unrhyw newid ac mae'r adborth a gawsom yn dangos pa mor bwysig yw Swyddfa'r Post i'r gymuned leol a hoffwn ddiolch i bawb a neilltuodd amser i roi eu barn i ni.

Mae symud y gangen hon yn rhan o'n cynlluniau moderneiddio a buddsoddi i ddarparu rhwydwaith Swyddfa'r Post sy'n gynaliadwy ac a fydd yn bodloni anghenion cwsmeriaid yn well yn y dyfodol. Fel rhan o'r rhaglen, nod ein cynigiad i adleoli Swyddfa'r Post Ffrith yw diogelu gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol dros y tymor hirach a darparu gwasanaeth gwell sydd hefyd yn fwy masnachol hyfyw. Ystyrir nifer o ffactorau wrth wneud penodiad gan gynnwys mynediad i'r lleoliad newydd, maint yr eiddo, addasrwydd y manwerthwr lletyol ac asesiad o hyfywedd eu busnes. Mae'r prosesau a ddilynwn yn rhai sefydlog a chadarn a phenodwyd y gweithredwr newydd yn sgîl cwblhau ein proses ymgeisio drylwyr.

Rydym yn sylweddoli bod Swyddfa'r Post yn chwarae rhan bwysig ym mywydau cwsmeriaid. Rydym wedi adolygu'r lleoliad newydd i sicrhau ei fod mor hawdd i'w gyrraedd ag sy'n bosibl i drigolion lleol. Rwyf yn sylweddoli fod y lleoliad newydd tua 200 metr o'r gangen bresennol ac i rai cwsmeriaid y bydd hyn yn golygu siwrnai ychydig yn hirach. Mewn sefyllfaoedd fel hyn mae'r anochel bod y newid yn fwy anghyfleus i rai cwsmeriaid nag i eraill ac ni allwn ond ymddiheuro am hynny. Fodd bynnag, i rai cwsmeriaid bydd a safle arfaethedig yn nes ac yn fwy hwylus nag ar hyn o bryd.

Er fy mod yn cydnabod y pryderon ynghylch parcio yn yr ardal, mae'n deg dweud bod hon yn problem a wynebwr ledled y wlad. Wrth ystyried darparu gwasanaeth mewn ardal rydym yn ystyried anghenion ein cwsmeriaid ond rwyf yn sicr y byddwch yn deall bod argaeledd mannau parcio yn fater nad oes gan Swyddfa'r Post reolaeth uniongyrchol drosto. Serch hynny rwyf wedi cynnal arolwg bellach. Medraf gadarnhau bod lle i barcio ar ochr y ffordd yn ymyl y storfa yn ogystal ag yn yr ardal o'i chwmpas. Rwyf yn fodlon felly y bydd parcio yn y lleoliad newydd yn cwrdd ag anghenion Swyddfa'r Post.

Bydd mynediad i'r storfa newydd drwy ddrysau awtomatig llydan a strïbed rhiniog wrth y fynedfa. Y tu mewn bydd y gangen newydd yn cael ei hadeiladu'n unol â manyleb Swyddfa'r Post gan sicrhau bod digon o le i'r Swyddfa Post yn y dull lleol newydd weithredu ochr yn ochr â'r cynigiad manwerthu. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r gweithredwr newydd ar y cynllun mewnol a bydd rhai o'r gosodiadau a'r harddangosiadau'n cael eu newid neu eu symud er mwyn sicrhau na fydd unrhyw rwystr rhag mynd i'r adeilad. Ni bydd rhwystrau yn yr eiliau na'r man ciwio a bydd digon o le i gwsmeriaid a defnyddwyr cadeiriau olwyn i symud o gwmpas y siop a chyrraedd gwasanaethau Swyddfa'r Post yn hawdd.

Bydd y Swyddfa'r Post yn y dull lleol newydd yn gweithredu o ddau bwynt gwasanaethu Swyddfa'r Post a leolir wrth gownter y siop, a fydd yn galluogi cwsmeriaid i gyflawni ystod eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ochr yn ochr â gweithrediadau manwerthu, gan gynnwys y gallu i gasglu eitemau na ellir eu dosbarthu. Mae'r newid hefyd yn golygu y bydd trigolion yn elwa o gael oriau agor llawer hirach, gan gynnwys prynhawn dydd Sadwrn ac agor ar y Sul. Bydd yr oriau newydd hyn yn golygu y bydd cwsmeriaid yn medru amrywio eu hymweliadau a defnyddio ein gwasanaethau saith diwrnod yr wythnos ac ar adegau sy'n fwy cyfleus iddynt hwy. Ceir manylion llawn y gangen newydd ar ddiwedd y llythyr hwn a hefyd restr o'r cynhyrchion a'r gwasanaethau a fydd ar gael.

Rwyf wedi ystyried ein cynigiad gwreiddiol yn ofalus a'r adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r effaith ar drigolion lleol a'r gymuned ehangach. Wedi adolygu hefyd y mynediad i gerddwyr ac i gerbydau yn y safle newydd, rwyf yn hyderus y bydd y gangen newydd mewn lleoliad addas ac y bydd y ffordd newydd hon o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn bodloni anghenion cwsmeriaid tra'n helpu i gynnig cynaliadwydd i wasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned yn y dyfodol.

Dangosir posteri yn y gangen i roi gwybod i gwsmeriaid am y penderfyniad hwn. Rydym yn gwneud y trefniadau terfynol ar hyn o bryd i symud y gangen a darperir posteri pellach yn y gangen cyn hir i roi gwybod i gwsmeriaid am yr union ddyddiad y bydd y gangen yn symud.

Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar Ganolbwynt Ymgynghori Swyddfa'r Post yn postofficeviews.co.uk.

Cyflawnir y newid hwn i rwydwaith Swyddfa'r Post yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i'r rhwydwaith fel a gytunwyd gyda'r corff gwarchod defnyddwyr statudol annibynnol. Mae copi llawn o'r Cod Ymarfer ar ein gwefan yn www.postofficeviews.co.uk, neu drwy gysylltu â ni yn y cyfeiriad a roddir ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch am ystyried ein cynigiad.

Yn gywir



Suzanne Richardson
Rheolwr Rhwydwaith Rhanbarthol

Sut i gysylltu â ni:

-  postofficeviews.co.uk
-  comments@postoffice.co.uk
-  RHADBOST Your Comments

Taflen wybodaeth Swyddfa'r Post Ffrith															
Cyfeiriad	Willow Stores Ltd 287 Victoria Road Prestatyn LL19 7UT														
Oriau agor	<table border="1"> <tr><td>Llun</td><td>07:00 – 21:00</td></tr> <tr><td>Mawrth</td><td>07:00 – 21:00</td></tr> <tr><td>Mercher</td><td>07:00 – 21:00</td></tr> <tr><td>Iau</td><td>07:00 – 21:00</td></tr> <tr><td>Gwener</td><td>07:00 – 21:00</td></tr> <tr><td>Sadwrn</td><td>07:00 – 21:00</td></tr> <tr><td>Sul</td><td>07:00 – 21:00</td></tr> </table>	Llun	07:00 – 21:00	Mawrth	07:00 – 21:00	Mercher	07:00 – 21:00	Iau	07:00 – 21:00	Gwener	07:00 – 21:00	Sadwrn	07:00 – 21:00	Sul	07:00 – 21:00
Llun	07:00 – 21:00														
Mawrth	07:00 – 21:00														
Mercher	07:00 – 21:00														
Iau	07:00 – 21:00														
Gwener	07:00 – 21:00														
Sadwrn	07:00 – 21:00														
Sul	07:00 – 21:00														
Pellter	200 metr o'r gangen bresennol ar hyd tirwedd amrywiol.														
Cynhyrchion & Gwasanaethau	Bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post yn dal i fod ar gael.														
Mynediad & gwaith mynediad	Mynediad a chyfleusterau Bydd gan y gangen ddrysau awtomatig llydan a strïbed rhiniog yn y fynedfa. Tu mewn, bydd dolen glyw a gofod ar gyfer cadair olwyn. Parcio Mae lle i barcio ar ochr y ffordd gerllaw.														
Manwerthu	Storfa gyfleuster														
Dyddiad adleoli	Dyddiad i'w gadarnhau														

I gael y wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, mewn print bras, sain neu braille cysylltwch â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

Gwasanaethau sydd ar gael yn Swyddfa'r Post® Ffrith		
Bydd eich Postfeistr neu ein Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 yn falch o'ch helpu gydag unrhyw ymholiad am argaeledd cynhyrchion neu i roi manylion gwerth uchaf y gweithrediadau i chi. Gall cwsmeriaidi siopa ar-lein hefyd yn www.postoffice.co.uk		
Post		
Post Dosbarth Cyntaf ac Ail		✓
Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1 ^{af} 6 & 12 yn unig, 2 ^{il} Ddosbarth 12 yn unig)		✓
Stampiau arbennig (cyhoeddiad y Nadolig yn unig) & labeli postio		✓
Signed For		✓
Special Delivery		✓
Dychweliadau siopa gartref		✓
Parseli mewnol bach, canolig a mawr		✓
Parseli brys & contract		✓
Post Lluedd Prydeinig (BFPO)		✓
Llythyrau & cardiau post rhyngwladol (gan gynnwys Signed For & Airsure)		✓
Parseli rhyngwladol hyd at 2kg & papurau printiedig hyd at 5kg		✓
Parseli rhyngwladol Parcelforce Worldwide		✓
Eitemau i'r deillion (mewnol & rhyngwladol)		✓
Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol		✓
Local Collect		✓
Drop & Go		✓
Codi arian, adneuron a thaliadau		
Cerdyn Cyfrif Swyddfa'r Post		✓
All personal and business banking cash withdrawals, deposits, balance enquiries & enveloped cheque deposits (card, barcoded or manual) Codi arian o gyfrifon banc personol a busnes, adneuron, ymholiadau balans & adneuron siec mewn amlen (gan ddefnyddio cerdyn, cod bar neu â llaw)		✓
Archebion post		✓
Moneygram		✓
Rhoi newid		✓
Talu biliau		
Talu biliau (cerdyn, cod bar neu â llaw)		✓
Adlenwi allweddi		✓
Gyrru		
Treth Car		✓
Trwyddedau		
Trwyddedau pysgota â gwialen		✓
Teithio		
Arian teithio i'w archebu ymlaen llaw		✓
Arian teithio ar gais		Ewros/Doleri
Atgyfeirio yswiriant teithio		✓
Yswiriant teithio ar gais		x
Adlenwadau Ffonau Symudol & E-fowtsieri		✓
Terfynell Loteri Genedlaethol		x
Talu gyda siec		✓
Bydd y cynhyrchion gyda * ar gael yn Swyddfa'r Post Prestatyn , 26 Stryd Fawr, Prestatyn, LL19 9BB	Oriau agor: Llun – Sad	09:00 – 17:30